

PWYLLGOR PERSONNEL

18 Ebrill 2018

Yn Bresennol: Cynghorydd DGM James (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer (yn dirprwyo ar ran Mrs J James) a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.20am)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth Mrs G Hayward, Mrs J James a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28^{ain} o Fawrth 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28^{ain} o Fawrth 2018.

4. Fforwm Cyflogeion – Adroddiad y cyfarfod

Cyflwynwyd adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm Cyflogeion a gynhaliwyd ar yr 21^{ain} o Fawrth 2018 i'r Aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD mabwysiadu adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm Cyflogeion a gynhaliwyd ar yr 21^{ain} o Fawrth 2018.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd ML Evans a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

5. Eithrio'r cyhoedd

PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

6. Penodi Swyddog Monitro

Roedd y Pwyllgor wedi cyfweld ag ymgeisydd am y swydd Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD argymhell i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol bod Mr Rhys Stephens yn cael ei benodi yn Swyddog Monitro.

